**Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qA1495798

Emma Gladstone
Rheolwr Polisi Strategol
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Annwyl Emma,

17 Rhagfyr 2025

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: Cytundeb Cyflawni Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)**

Diolch am eich e-bost ar 17 Rhagfyr yn gofyn am gymeradwyaeth i'ch Cytundeb Cyflawni ar gyfer eich Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd yn dilyn cadarnhad drwy benderfyniad gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 17 Rhagfyr. Mae'r llythyr hwn mewn ymateb i gadarnhad ffurfiol o'r Cytundeb Cyflawni gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer CD Ll newydd a fydd yn cwmpasu'r cyfnod 2025-2040.

Mae paratoi CDLl yn ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru. Mae bod â chynllun datblygu cyfredol ar waith yn sail i'r holl system gynllunio yng Nghymru ac mae'n ategu ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu a arweinir gan gynlluniau. Mae rheoli prosiectau yn effeithiol a thystiolaeth gyfredol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a nodir ym mharagraff 2.2.1 ac Atodiad 2 y Cytundeb Cyflawni. Mae'r amserlen a nodir yn y Cytundeb Cyflawni yn cyd-fynd â'r gofynion yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhif 3), gan gydnabod bod gan eich awdurdod eisoes gynllun a fabwysiadwyd ar waith sydd wedi'i ategu gan nifer o ddogfennau tystiolaeth.

Prawf cadernid y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn wrth iddo gael ei archwilio yw a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb Cyflawni y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun


Cynnwys Cymunedau (CIS).  Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos ‘cydymffurfiaeth gyffredinol’ â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i baratoi eich cynllun newydd. Mae eich Cytundeb Cyflawni a gyflwynwyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o amseriadau pob cam CDLl (Atodiad 2) gyda dyddiad mabwysiadu dangosol o fis Tachwedd 2029.

Ar ôl ystyried y Cytundeb Cyflawni yr ydych wedi'i gyflwyno, gallaf **gadarnhau ein bod yn cytuno**'r amserlen a nodir ym mharagraff  2.2.1, ynghyd â chyfnod wrth gefn o 3 mis, y darperir ar ei gyfer gan Adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

Dylech nawr wneud yn siŵr bod y fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflawni ar gael i’r cyhoedd yn unol â’r gofynion a nodir yn Rheoliad 10.

Yn gywir,



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Chief Planner**